

Busnes Gymhwysol

Lleolir y cwrs yn Ysgol Bro Pedr
Cysylltwch â: Mrs A. Davies



Pam astudio Astudiaethau Busnes?

Mae TAG Busnes Cymhwysol yn cynnig golwg newydd ffres i fyfyrwyr ar fydd Busnes. Mae'n cynnwys cynllun asesu di-bapur h.y. ar gyfrifiadur, ac yn hyrwyddo arloesedd wrth ei gyflwyno gyda'r bwriad o gyfoethogi profiad cyffredinol myfyrwyr. Mae arferion busnes sydd wedi hen ennill eu plwyf yn cael eu hystyried ochr yn ochr â thechnolegau a gweledigaethau mwy cyfoes gyda'r pwyslais yn cael ei roi ar gymhwyso sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth. Mae'r cymhwyster hwn yn cefnogi dilyniant i addysg bellach/uwch briodol, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant a phrifysgolion bron i gyd yn derbyn cymhwyster Busnes Cymhwysol, ar y lefel hwn fel cymhwyster mynediad. Byddwch yn datblygu sgiliau a deallusrwydd mewn busnes a fydd yn eich galluogi i symud ymlaen i addysg uwch a gwaith mewn meysydd tebyg i Gyfrifeg, Marchnata, Personél, Rheolaeth ac Adwerthu neu gallwch fod y mentrwr enwog nesaf fel yr Arglwydd Sugar, Richard Branson neu Anita Roddick!!

Beth yw cynnwys y cwrs?

Mae Astudiaethau Busnes yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr ddeall y pethau sydd yn effeithiol ar eu bywydau'n feunyddiol, er enghraifft, sut mae'r economi yn gweithredu a sut i ymgeisio am swydd.

Mae'r cwrs yn un galwedigaethol felly bydd myfyrwyr yn ymchwilio a chwblhau tasgau gwaith cwrs perthnasol ar wahanol fusnesau.

Trefnir teithiau addysgol a gweithgareddau allgyrsiol i atgyfnerthu'r dysgu yn y dosbarth.

Byddwch yn datblygu Sgiliau Craidd yn y meysydd canlynol:

Cyfathrebu	Cymhwyso rhif
Datrys Problemau	Cydweithio
Gwella eich addysg a pherfformiad	Technoleg Gwybodaeth

Beth yw strwythur y cwrs a'r dulliau asesu?

	Unedau	Cynnwys	Asesu
UG Blwyddyn 12	Uned 1	Ymchwilio Busnes a Chyllid	Asesiad Allanol
	Uned 2	Ymchwilio Dylanwadau a Gweithgareddau Busnes	Asesiad Mewnol
U2 Blwyddyn 13	Uned 5	Gwneud Penderfyniadau Busnes	Asesiad Allanol
	Uned 6	Cynllunio Busnes	Asesiad Mewnol